Archwilio Cymru
Audit Wales

Disgrifiad swydd

Teitl y swydd	Hyfforddai Llwybrau
Yn atebol i	Rheolwr Archwilio
Lleoliad	Cymru
Yn adrodd yn uniongyrchol	Amherthnasol
Band cyflog	Dan hyfforddiant
Cliriad Lefel Diogelwch	Cliriad Gwrthderfysgaeth

Pwrpas y Swydd

- Byddwch yn gweithio fel rhan o dîm ategol, ac yn cymryd rhan yng ngwaith archwilio allanol amrywiaeth o gyrff yn sector cyhoeddus Cymru, gan gynnwys llywodraeth leol, cyrff y GIG, a Llywodraeth Cymru a'i sefydliadau cysylltiedig.
- Byddwch hefyd yn cael eich hyfforddi i ennill cymhwyster y Sefydliad Cyfrifyddion Siartredig yng Nghymru a Lloegr (ICAEW).
- Byddwch yn ymgymryd â chymhwyster Arweinyddiaeth a Rheolaeth achrededig y Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth (ILM), Lefel 3.

Prif Ddyletswyddau

- I gwblhau'r cymhwyster ICAEW yn llwyddiannus gan gynnwys diweddaru eich ffeil hyfforddi ICAEW yn rheolaidd a chymryd rhan mewn cyfarfod adolygu ICAEW chwe mis.
- Cwblhau'r cymhwyster ILM yn llwyddiannus o fewn yr amserlenni a ragnodir.
- Cwblhau'r holl hyfforddiant gorfodol sy'n ofynnol fel rhan o'r rhaglen hyfforddeion llwybr yn llwyddiannus.
- Helpu darparu archwiliad ariannol a gwaith gwerth yr arian mewn Cyrff a Archwilir yn unol â safonau Archwilio Cymru.
- Gweithio fel rhan o dîm i gwblhau neu gynorthwyo wrth gwblhau tasgau archwilio yn unol â gweithdrefnau wedi'u cytuno arnynt. Bydd hyn yn cynnwys cynnal archwiliadau Cyngor Tref a Chymuned yn eich blwyddyn sylfaen
- Gweithio fel rhan o dîm prosiect sy'n cyfrannu at waith ymchwil a chasglu data a dadansoddi data.
- Unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gymesur â'r swydd.

Meysydd Prif Ganlyniadau

- Cwblhau gofynion cymhwyster a ffeiliau hyfforddi ICAEW yn llwyddiannus yn unol â rheoliadau ICAEW a'r cytundeb hyfforddi.
- Arddangos datblygiad effeithiol sgiliau a gwybodaeth yn unol â'r rhaglen waith gytbwys a sgiliau proffesiynol ICAEW.

- Cwblhau'r cymhwyster ILM yn llwyddiannus o fewn yr amserlen a ragnodir.
- Darparu gweithgareddau archwilio gyda chefnogaeth yn brydlon, yn ôl y gyllideb a'r ansawdd.
- Bod yn esiampl ar gyfer gwerthoedd ac ymddygiadau Archwilio Cymru.

Cyffredinol

Ein Gwerthoedd a'n hymddygiadau

Mae ein gwerthoedd a'n hymddygiadau'n diffinio'r ffordd yr ydym yn gweithio a'r modd yr ydym yn gweithio gyda'n gilydd i gyrraedd ein nodau. Mae ein pobl ni i gyd yn ymrwymedig i arddangos ein gwerthoedd a'n hymddygiadau, fel y gallwn weithio'n effeithiol gyda'n gilydd a gwneud penderfyniadau da. Maen nhw'n ein helpu ni i fod y gorau y gallwn ni fod ac yn sicrhau bod gennym y sgiliau a'r profiadau cywir yn y lle iawn. Mae ein gwerthoedd a'n hymddygiadau wedi eu cynllunio gan y staff i fod o gymorth i gynyddu amrywiaeth ein gweithlu a datblygu diwylliant o hyfforddi er mwyn sicrhau amodau i ffynnu er budd llwyddiant y sefydliad. Mae'n ofynnol i bob gweithiwr gyfrannu'n llawn at feithrin diwylliant cadarnhaol a helpu i ni dyfu trwy fyw ein gwerthoedd a'n hymddygiad.

Cyfrinachedd a Diogelwch Gwybodaeth

Rhaid i ddeiliad y swydd fod yn ymwybodol bob amser o bwysigrwydd cadw cyfrinachedd a diogelwch y wybodaeth y mae'n ei chasglu wrth gyflawni ei ddyletswyddau. Mewn llawer o achosion, bydd hyn yn cynnwys mynediad at wybodaeth bersonol. Rhaid i ddeiliad y swydd drin yr holl wybodaeth, boed yn gorfforaethol neu'n ymwneud â chleientiaid, mewn modd disylw a chyfrinachol yn unol â darpariaethau Deddf Diogelu Data 2018, GDPR y DU a pholisi sefydliadol. Ystyrir torri cyfrinachedd o'r fath yn drosedd ddifrifol fydd yn arwain at ddisgyblu, sy'n agored i ddiswyddo a/neu erlyniad o dan y ddeddfwriaeth statudol gyfredol (Deddf Diogelu Data) a Pholisi Disgyblu Archwilio Cymru.

Cydraddoldeb

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru yn gosod dyletswydd gadarnhaol ar gyrff cyhoeddus i hyrwyddo cydraddoldeb i bobl â nodweddion gwarchodedig, fel cyflogwr ac fel darparwr gwasanaethau cyhoeddus. Mae naw nodwedd warchodedig: oedran; anabledd; newid rhyw; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Mae Archwilio Cymru wedi ymrwymo i sicrhau nad oes unrhyw ymgeisydd swydd neu gyflogai yn cael triniaeth lai ffafriol ar unrhyw un o'r seiliau uchod. I'r diben hwn, mae gan y sefydliad Bolisi Cydraddoldeb ac mae cyfrifoldeb ar bob gweithiwr i gyfrannu at ei lwyddiant.

Iechyd a Diogelwch

Mae gan holl weithwyr y sefydliad ddyletswydd gofal statudol am eu diogelwch personol eu hunain a diogelwch personol pobl eraill y gallai eu gweithredoedd neu eu hepgoriadau effeithio arnynt. Mae'n ofynnol i ddeiliad y swydd gydweithredu â'r rheolwyr i alluogi'r sefydliad i gyflawni ei ddyletswyddau cyfreithiol ei hun a rhoi gwybod am unrhyw sefyllfaoedd peryglus neu offer diffygiol. Rhaid i ddeiliad y swydd gadw at bolisïau Rheoli Risg, Iechyd a Diogelwch a pholisïau cyswllt y sefydliad.

Gwiriadau Diogelwch

Mae pob cyflogai yn destun gwiriadau diogelwch sylfaenol fel rhan o'u gwiriad cyn cyflogi. Mae'r gwiriadau hyn yn cynnwys prawf hunaniaeth a chymwysterau. At hynny, mae'r holl staff mewn rolau cymwys yn destun trefniadau fetio diogelwch hyd at lefel diogelwch CTC (gwiriad gwrthderfysgaeth).

Urddas yn y Gwaith

Mae'r sefydliad yn condemnio pob math o fwlio ac aflonyddu ac mae'n ymroi i hyrwyddo gweithle lle mae gweithwyr yn cael eu trin yn deg a chydag urddas a pharch yn ddiduedd. Gofynnir i bob aelod o staff adrodd am unrhyw fath o fwlio ac aflonyddu wrth ei Reolwr Llinell neu wrth un o Gyfarwyddwyr y

sefydliad. Ni oddefir unrhyw ymddygiad amhriodol y tu mewn i'r gweithle a chaiff ei drin fel mater difrifol o dan bolisi Urddas yn y Gwaith Archwilio Cymru.

Y Gymraeg
Rydym yn gwerthfawrogi pwysigrwydd y Gymraeg yn ein gwaith ac yn anelu at ddarparu gwasanaeth dwyieithog i bawb sydd am ei ddefnyddio. Hoffem felly annog yn arbennig geisiadau gan unigolion sydd â sgiliau iaith Gymraeg i'n helpu i gyrraedd y nod hon. Bydd pob disgrifiad swydd yn nodi a yw gallu siarad Cymraeg yn ofyniad hanfodol neu ddymunol. Os byddwch yn llwyddiannus ac nad oes gennych sgiliau Cymraeg ar hyn o bryd, gallwn eich cynorthwyo i ddysgu Cymraeg os byddwch yn dymuno i fod yn

Manylion Person		
Gofyniad	**Hanfodol neu Ddymunol**	**Dull Asesu Cais / Asesu / Cyfweliad**
1. Cymwysterau		
1.1 120 pwynt UCAS o dri chymhwyster Safon Uwch llawn (A2) neu uwch neu gymhwyster cyfatebol.	Hanfodol	Cais
1.2 O leiaf 5 TGAU (Gradd A*-C), gan gynnwys Mathemateg gradd B neu uwch a Saesneg gradd C neu uwch.	Hanfodol	Cais
2. Technegol		
2.1 Gallu dangos cymhelliant ac ymrwymiad i ddod yn gyfrifydd ac wedi ymrwymo i weithio yn y sector cyhoeddus yng Nghymru.	Hanfodol	Cais / Asesu
2.2 Gallu i gynhyrchu syniadau, cynghori a chefnogi gwaith archwilio perfformiad.	Dymunol	Asesu
3. Cyfathrebu		
3.1 Dangos sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig effeithiol, gan gynnwys gwrando gweithredol a chyflenwi gwybodaeth glir, cryno a chywir.	Hanfodol	Cais / Asesiad / Cyfweliad
3.2 Yn naturiol chwilfrydig, gyda meddylfryd chwilfrydig, yn hyderus i'w gwestiynu ac yn hyderus wrth ffurfio a mynegi eu barn eu hunain.	Dymunol	Asesu
3.3 Sgiliau rhyngbersonol da – yn gallu datblygu a gweithio'n effeithiol gydag eraill ar bob lefel	Hanfodol	Asesiad / Cyfweliad:
4. Cyfrifoldeb Arweinyddiaeth		
4.1 Yn gweithio'n effeithiol, yn frwdfrydig ac yn ymgysylltiedig fel aelod o dîm.	Hanfodol	Cais / Asesu
4.2 Parodrwydd i rannu gwybodaeth a darparu cymorth a chefnogaeth i gydweithwyr llai profiadol	Dymunol	Asesu

5. Allbynnau a Chyflawniadau'r Swydd		
5.1 Deall rôl a swyddogaeth y sector cyhoeddus yng Nghymru, yr heriau y mae'n eu hwynebu ar hyn o bryd a'r amgylchedd gwleidyddol cysylltiedig.	Dymunol	Cais / Asesiad / Cyfweliad
5.2 Deall rôl yr archwilydd sector cyhoeddus wrth ddal i gyfrif a hyrwyddo gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus.	Dymunol	Cyfweliad
5.3 Sgiliau rheoli amser cryf, gan gynnwys trin archwiliadau lluosog ar yr un pryd wrth gydbwyso eu dysgu ICAEW.	Hanfodol	Cais / Asesiad / Cyfweliad
5.4 Ymagwedd rhagweithiol tuag at eich gwaith a'ch astudiaethau, gan gymryd perchnogaeth glir ac atebolrwydd ar gyfer eich rhaglen ddysgu a gwaith eich hun.	Hanfodol	Asesiad / Cyfweliad:
5.5 Medru dangos sylw rhagorol i fanylion tra'n gallu gweld y darlun mwy.	Hanfodol	Cais / Asesu
5.6 Gallu dangos cadernid i gydbwyso'r gofynion o weithio ochr yn ochr â hyfforddiant proffesiynol	Hanfodol	Asesiad / Cyfweliad:
6. Gwneud Penderfyniadau		
6.1 Hyblyg a'r parodrwydd i ymaddasu i flaenoriaethau/heriau sy'n newid.	Dymunol	Asesu
Sgiliau dadansoddol a datrys problemau cadarn	Hanfodol	Cais / Asesu
6.3 Yn gallu dangos barn broffesiynol gadarn	Dymunol	Asesu
6.4 Gallu gweithredu ar fenter eich hun tra'n cydnabod pryd mae angen arweiniad a phryd i geisio goruchwyliaeth a chefnogaeth gan gydweithwyr.	Hanfodol	Asesu
7. Sgiliau Digidol a Data		
7.1 Dangos hyfedredd mewn sgiliau digidol, gan gynnwys cymwysiadau meddalwedd MS Office fel Teams, Word, ac Excel.	Hanfodol	Cais / Asesu
7.2 Hyderus a chyfforddus yn gweithio gyda data a'i ddadansoddi.	Hanfodol	Cais / Asesu
7.3 Arddangos agored i newid mewn gweithle sy'n esblygu trwy ddefnyddio gwelliannau technolegol a digidol yn briodol	Hanfodol	Asesu
8. Deallusrwydd Emosiynol		
8.1 Cyflwyno delwedd hyderus a phroffesiynol, sy'n gallu datblygu a chynnal perthynas waith gadarnhaol a phroffesiynol gyda swyddogion cyrff archwilio a chydweithwyr Archwilio Cymru fel ei gilydd.	Hanfodol	Asesiad / Cyfweliad:

8.2 Arddangos hunan-ymwybyddiaeth a pharodrwydd i ddysgu o brofiad, gan gaffael a chymhwyso gwybodaeth a sgiliau newydd a pherthnasol yn barhaus.	Hanfodol	Asesiad / Cyfweliad:
9. Cyffredinol		
9.1 Hunanymwybodol ac yn fodel rôl ar gyfer gwerthoedd ac ymddygiadau Archwilio Cymru.	Hanfodol	Asesiad / Cyfweliad:
9.2 Y gallu i weithio'n hyblyg ac, os oes angen, y tu allan i oriau swyddfa arferol.	Dymunol	
9.3 Ymwybyddiaeth o ran ac ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth.	Hanfodol	Asesiad / Cyfweliad:
9.4 Ymwybyddiaeth ac ymrwymiad i drefniadau iechyd a diogelwch.	Hanfodol	

Sgiliau yn y Gymraeg		
Maes sgil	**Hanfodol**	**Dymunol**
Siarad a Gwrando	Cyfarch eraill dros y ffôn neu wyneb yn wyneb gyda chyfarchiad Cymraeg syml ac anfon galwad ymlaen yn sensitif at siaradwr Cymraeg pan fo'n briodol.	Mynychu cyfarfodydd a thrafodaethau cyfrwng Cymraeg a chyfrannu'n hyderus yn Gymraeg
Darllen	Defnyddio meddalwedd cyfieithu i gael crap ar gynnwys gohebiaeth syml gan ddeall mai cyfyngedig yw gallu'r feddalwedd hon.	Deall adroddiadau, gohebiaeth ac ymatebion i'r arolwg a chymryd negeseuon allweddol
Ysgrifennu	Diweddaru dogfennau a gohebiaeth gyda dyddiadau Cymraeg a thermau cyffredinol eraill.	Ysgrifennu adroddiadau a gohebiaeth gymhleth yn Gymraeg gyda chymorth sillafu a gwirio gramadeg Cymraeg